



ETHOLIAD CYFFREDINOL 2017

Llythyr at Gatholigion yn Lloegr a Chymru gan eu Hesgobion

Wrth inni agosáu at yr Etholiad Cyffredinol ar 8 Mehefin, gofynnwn ichi ystyried y canlynol.

Fel Catholigion a dinasyddion yn y Deyrnas Gyfunol, ffurfir ein bywydau gan y weledigaeth sy'n dod o'n ffydd. Medd y Pab Ffransis:

“Mae ffydd ddilys ... bob amser yn cynnwys awydd dwfn i newid y byd, i drosglwyddo gwerthoedd, i adael y ddaear hon rywfaint yn well nag fel y cawsom hi. Rydym yn caru'r blaned odidog hon y dododd Duw ni arni, ac rydym yn caru'r teulu dynol sy'n trigo yma, gyda'i holl drasiedïau a'i ymdrechion, ei obeithion a'i ddyheadau, ei gryfderau a'i wendidau. Mae'r ddaear yn gartref cyffredin inni ac rydym bawb ohonom yn frodyr a chwiorydd.”
Y Pab Ffransis, Evangelii Gaudium §183

Mae'r geiriau hyn yn ein hannog i ddod at yr Etholiad Cyffredinol hwn gydag ewyllys gadarn i ystyried yn ofalus bob dim sydd yn y fantol.

Mae'n ddyletswydd bwysig ar bob dinesydd o'r DU sydd â'r hawl i bleidleisio i gymryd rhan yn yr Etholiad Cyffredinol hwn. Sicrhewch eich bod wedi eich cofrestru. Pleidleisiwch, da chi. Mae eich pleidlais yn fater o gydwybod. Eich barn chi ydyw ynghylch popeth y mae Duw yn ei ddymuno gennym, yn bersonol ac yn gymdeithasol.

Mae'r Pab Ffransis yn ein hatgoffa o egwyddorion pwysig i'n harwain:

“...awydd dwfn i newid y byd hwn a gadael y ddaear hon rywfaint yn well nag fel y cawsom hi.”

I wneud hyn, rhaid inni enwi ac wynebu pob anghyfiawnder a budr-elwa sy'n creithio ein cymdeithas a'r byd.

“Rydym yn caru'r teulu dynol hwn gyda'i holl drasiedïau a'i ymdrechion”

Y teulu yw'r patrwm sylfaenol pan feddyliwn am y ddynoliaeth, oherwydd y teulu, yn wir, yw uned waelodol yr hil ddynol, ac mae angen, felly, ei gwarchod a'i meithrin. Mynegir y cariad hwn yn ymarferol trwy drugaredd a thosturi, yn enwedig ar adegau o salwch, digartrefedd, colli anwylyd, trais, ac unigrwydd.

“Y ddaear yw ein cartref cyffredin”

Ni allwn fod yn ddifater ynghylch ymdrechion a thrychinebau pobl sy'n byw ymhell oddi wrthym, a rhaid inni ymlafnio i'w cynorthwyo a'u hamddiffyn. Ni allwn fod yn ddifater ynghylch effaith ein ffordd o fyw a chreu cyfoeth a lles ar yr amgylchedd.

“Rydym i gyd yn frodyr a chwiorydd.”

Pwysleisiwn yma fod gan bob person urddas cyffredin na ddylid ei wadu na'i anwybyddu byth. Rydym wedi ein creu ar lun a delw Duw, rydym yn werthfawr iddo ef ac i'n gilydd, a rhaid parchu a gwerthfawrogi hyn.

Mae'r egwyddorion cyffredinol hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar lawer o'r materion ymarferol a drafodir ar hyn o bryd. Yn wir, cynhelir yr Etholiad Cyffredinol hwn ar adeg dyngedfennol ym mywyd ein cenedloedd wrth inni baratoi i adael yr Under Ewropeaidd.

I raddau helaeth, bydd canlyniad yr etholiad hwn yn penderfynu'r dull o gyflawni hyn, y blaenoriaethau a ddilynwn a'r gwerthoedd y dymunwn eu trysori fel rhai arbennig i ni yn y DU ac fel partneriaid gyda gwledydd ledled y byd. Bydd yn penderfynu sut y gallwn wella rhaniadau yn ein cymdeithas, gofal am bobl fregus, sut y gweinyddir ein gwasanaethau cyhoeddus ac a fedrwn ni aros yn deyrnas unedig.

Mae'r egwyddorion hyn yn ffurfio ein ffordd o feddwl am y materion sy'n cael eu trafod ar hyn o bryd. Ynghlwm y mae rhai cwestiynau y gallech eu hystyried eich hun a'u cyflwyno i ymgeiswyr neu'r rheini sy'n gofyn am eich cefnogaeth.

GADAEI YR UNDEB EWROPEAIDD

Mae yna dros dair miliwn o ddinasyddion yr UE yn byw yn y DU a thua miliwn o ddinasyddion Prydeinig yn byw mewn llefydd eraill yn y UE. Mae eu dyfodol yn ansicr. **Ble mae eich ymgeiswyr yn sefyll o ran dyfodol dinasyddion EU yn y DU a hawliau cyfatebol i ddinasyddion DU yn yr UE?**

Wrth i'n hymadawiad ffurfiol o'r UE agosáu, bydd cytundebau masnach newydd yn cael eu trefnu. Mae'n bwysig bod hawliau dynol a hawliau gweithwyr, yr amgylchedd, a datblygiad gwledydd tlotaf y byd yn cael eu cymryd i ystyriaeth ynddynt. **Pa faterion, ym marn eich ymgeiswyr, a ddylai fod yn brif flaenoriaeth wrth ffurfio partneriaethau rhyngwladol newydd?**

MATERION TEULU A BYWYD

Yn 2015 fe bleidlesiodd y Senedd â mwyafrif llethol i amddiffyn aelodau mwyaf bregus cymdeithas, trwy atal cyfreithloni marw gyda chymorth. **A fydd eich ymgeiswyr yn glynu wrth y penderfyniad hwn? A fyddant yn cefnogi camau i hybu gwerth cynhenid bywyd ym mhob cyfnod ohono?**

Mae'r teulu wrth wraidd iechyd a lles cymdeithas, a lles plant yn bennaf oll. **Pa bolisïau y mae eich ymgeiswyr yn eu cynnig ar gyfer ffyniant bywyd teuluol?**

CYFIAWNDER TROSEDDOL

Mewn cymdeithas wâr dylai carchardai fod yn llefydd i achub ac adfer. Mae ein carchardai yn wynebu graddfeydd digyffelyb o drais a hunanladdiad. **A yw eich ymgeiswyr yn cefnogi diwygio carchardai yn ddi-oed a darparu gwell adnoddau iddynt?**

MUDO

Bu'r DU ers amser yn lle sy'n croesawu pobl o wledydd eraill. Mae angen polisi clir ar fudo, un sy'n gweithio er lles yr economi ac sy'n parhau undod priodas a bywyd teuluol. **Sut y bydd eich ymgeiswyr yn sicrhau ein bod yn gweithredu trefn fudo deg ar gyfer pobl sy'n dymuno dod i'r DU a gweithio yno?**

FFOADURIAID A CHEISWYR LLOCHES

Mae'r DU ar hyn o bryd wedi ymrywmo i ailgartrefu o leiaf 20,000 o'r ffoaduriaid mwyaf bregus o Syria erbyn 2020. **A fydd eich ymgeiswyr yn gweithredu i sicrhau bod yr ymrwymiad hwn yn cael ei ddiogelu a bod opsiymau i ehangu'r cynllun yn cael eu hystyried? A fyddant yn hybu cymdeithas groesawgar ac yn gwrthwynebu troseddau casineb?**

RHYDDID I GREFYDD A CHRED

Ledled y byd mae milynau o bobl yn cael eu herlid oherwydd eu cred. **Sut y mae eich ymgeiswyr yn bwriadu hybu rhyddid i grefydd neu gred ar gyfer pawb, a pha gamau y gellid eu cymryd fel blaenoriaeth ym mholisi tramor y DU i amddiffyn lleiafrifoedd crefyddol, gan gynnwys lleiafrifoedd Cristnogol?**

CYNORTHWYO AELODAU TLOTAF Y BYD

Mae cymorth gan y DU yn achub bywydau ac yn help i godi pobl allan o dlodi. **A fydd eich ymgeiswyr yn ymrwmo i amddiffyn a gwella'r gyllideb ddatblygu ryngwladol?**

GOFALU AM BOBL FREGUS

Mae yna lawer o bobl yn ein cymunedau sy'n fregus yn ariannol ac sy'n brwydo i gael y ddeupen ynghyd, neu sydd angen lle teilwng i fyw. **Ble mae eich ymgeiswyr yn sefyll o ran helpu'r tlotaf, o ran iechyd, gofal cymdeithasol a thai? Sut y byddant yn cefnogi pobl â phroblemau iechyd meddwl? Sut y byddant yn ariannu'r gwasanaethau hyn?**

ADDYSG

Mae ysgolion Catholig yn cyfrannu'n adeiladol i gymdeithas, gan wasanaethu dros 845,000 o blant yn Lloegr a Chymru. **A fydd eich ymgeiswyr yn cefnogi dewis rhieni ar gyfer addysg eu plant? A fyddant yn cefnogi ysgolion Catholig fel rhan o'r dewis hwn ar gyfer addysg seiliedig ar ffydd?**

CAETHWASIAETH FODERN

Mae caethwasiaeth fodern yn ymosodiad enbyd ar urddas dynol sy'n effeithio ar o leiaf 14,000 in y DU a milynau'n rhagor trwy'r byd. **Sut y bydd eich ymgeisydd yn rhoi cefnogaeth wleidyddol i'r frwydr yn erbyn caethwasiaeth fodern a gwell cymorth i'w dioddefwyr?**

Byddwch yn ystyried llawer o faterion eraill. Ym mhob un ohonynt, cadwch mewn cof nid yn unig eu heffaith arnoch chi a'ch teulu ond hefyd eu heffaith ar ein byd yn ehangach. Mae gan y DU draddodiad hir a theilwng o haelioni a chyfiawnder. Mae'r gwerthoedd a geir yn y cwestiynau hyn yn sylfaenol i'n ffordd o byw a lles ein cymdeithas.

Arglwydd, dyro inni'r doethineb i weithredu'n gyfiawn, gan geisio diogelwch a ffyniant pawb, ac adeiladu cymdeithas seiliedig ar gyfiawnder a heddwch.

Cyhoeddwyd gan Archesgobion Westminster, Caerdydd, Southwark, Birmingham a Lerpwl ar ran Cynhadledd Esgobion Catholig Lloegr a Chymru.